

Eitem: 08

Teitl: Ein cynllun: Hydref 2023 - Mawrth 2024

Gweithredu / Action required	Nodi a chytuno ar y cynllun ar gyfer Hydref 2023 - Ebrill 2024
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Nodi cynnwys y cynllun a chytuno i'r cynnwys
Risg / Risk	Amh.
Cyllid / Finance	Mae'r costau eisoes wedi'u cyfrifo o fewn y gyllideb ar gyfer 23/24.
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Gosod cynllun corfforaethol.
Cydraddoldeb / Equality	<p>Mae asesiad effaith integredig wedi'i gynnal.</p> <p>Yn gyffredinol, bwriedir i'r cynllun hwn gael effaith gadarnhaol ac mae wedi amlinellu, yn helaeth, rai o'r bwriadau a'r cynlluniau i leihau rhwystrau ac effeithiau negyddol ar amrywiaeth o bobl ledled Cymru.</p> <p>Bydd yn galluogi Llais i fod yn fwy deinamig yn ein huchelgais i fod yn hygyrch ac i ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd i wahanol rannau o gymdeithas.</p>
Cyfathrebu / Communications	<p>Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:</p> <p>Mewnol: ein pobl <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Allanol: enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/></p>
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr

Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	<p>Mae'r gwaith wedi'i drafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Tîm Arwain a'r Bwrdd yn y papur hwn ac mae'r cynllun yn dod â'r trafodaethau hyn at ei gilydd mewn cynllun cydlynol.</p>
Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting	<p>Ben Eaton</p>
Dyddiad / Date	<p>16/10/2023</p>
Cefndir	
<p>Daeth Llais i rym ar 1 Ebrill 2023 a dechreuodd yn syth ar gynllun 100 diwrnod o wrando a deall yr hyn yr oedd y cyhoedd a'n partneriaid ei angen gan Llais a sut yr oeddent am weithio gyda ni. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys sefydlu sawl agwedd ar swyddogaethau swyddfa gefn. Yn dilyn y cynllun 100 diwrnod cyhoeddwyd yr adroddiad 100 diwrnod a chan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mae'r cynllun ar gyfer gweddill y flwyddyn wedi'i ddatblygu.</p> <p>Rhwng y 100 diwrnod yn dod i ben a chreu'r cynllun ar gyfer gweddill y flwyddyn mae ardaloedd rhanbarthol a'r tîm cenedlaethol wedi parhau i gefnogi'r cyhoedd i fynegi eu barn, gweithio gyda phartneriaid, ac wedi rhoi cynnig ar ffyrdd newyddion o weithio a chynnal trafodaethau ar sut y dylai ein nodau strategol fod am weddill y flwyddyn a sut i'w cyflawni. Mae'r cynllun hwn ar gyfer Hydref-Mawrth 2024 yn dwyn ynghyd gynllun uchelgeisiol o sut mae Tîm Arwain yn credu y gallwn gael yr effaith fwyaf ar bobl Cymru.</p> <p>Os bydd y Bwrdd yn cytuno i gynnwys y Cynllun bydd cynlluniau rhanbarthol unigol yn cael eu cynhyrchu sy'n ehangu ar y 3 blaenoriaeth ar gyfer pob rhanbarth a gweithgaredd sy'n cyd-fynd â'r materion a glywn yn gyffredin o bob rhan o Gymru.</p>	
Manylion / Detail	
<p>Ceir manylion y cynllun ym mhapur 23-06 (06)a.</p>	